

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr:**

**Practis Deintyddol  
Mervinian House**

6 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	7
	Profiad y claf.....	7
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .....	10
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol Mervinian House yn Heol Meurig, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1LN, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 6 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>3</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

<sup>1</sup><http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

<sup>2</sup><http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>3</sup><http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Mervinian House yn darparu gwasanaeth i oddeutu 8,000 o gleifion yn ardal Dolgellau a Meirionnydd yng Ngwynedd. Cymerodd Integrated Dental Holdings (IDH) berchnogaeth o'r practis ym mis Gorffennaf 2014. Ar hyn o bryd, mae gan IDH rwydwaith o dros 600 o bractisau deintyddol ledled y DU.<sup>4</sup>

Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Practis cymysg ydyw sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Ar adeg yr arolygiad, dywedwyd wrthym fod 95% o'r cleifion yn derbyn gwasanaethau gan y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd rhan amser, tair nyrs ddeintyddol, a rheolwr y practis. Fodd bynnag, pan wnaethom ni arolygu ar 6 Mai 2015, roedd un o'r deintyddion wedi gadael yr wythnos gynt a'r swydd wag wedi'i hysbysebu.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Apwyntiadau deintyddol cyffredinol ac archwiliadau, gan gynnwys pelydrau-X
- Llenwadau
- Pontydd, coronau a thriniaethau sianel y gwreiddyn
- Tynnu dannedd
- Gwynnu dannedd
- Cyngor ar iechyd a hylendid y geg, a thriniaethau

---

<sup>4</sup> Yn ôl y wybodaeth a gafodd AGIC ym mis Mai 2015 o <http://idhgroup.co.uk/patient-services>

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd mae practis deintyddol Mervinian House yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Roedd pob un o'r saith claf a gwblhaodd holiadur AGIC yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, a bod tîm y practis yn groesawgar fel arfer.

Daeth practis Mervinian House i feddiant IDH ym mis Gorffennaf 2014, a gwnaethom argymhell bod taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion cyn gynted â phosibl, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion. Roedd IDH yn hyrwyddo gwasanaethau deintyddol preifat, felly dylid sicrhau bod rhestr o'r prisiau preifat ar gael hefyd.

Roedd rhai o'r cleifion wedi gorfod oedi cyn cael eu gweld o achos bod un o'r ddau ddeintydd wedi gadael yn ddiweddar, gan adael swydd wag. Roedd y practis yn rhagweld y bydd y broblem hon wedi'i datrys cyn gynted ag y bydd y swydd wedi'i llenwi.

Nid oedd system ffurfiol ar gyfer derbyn adborth gan gleifion am y gwasanaeth. Gwnaethom gynghori bod system yn cael ei datblygu a, lle bo'n bosibl, y gweithredir yn sgil adborth cleifion.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cyfleusterau clinigol a'r cyfarpar yn dda. Roedd systemau effeithiol ar waith ar gyfer cynnal a chadw ac archwilio. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus nad oedd yr unig ddeintydd sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y practis, ac a gymhwysodd y tu allan i'r DU, yn meddu ar hyfforddiant diogelwch ymbelydredd a radiograffeg priodol, fel sy'n ofynnol dan reoliadau'r DU. Nid oedd y deintydd yn ymwybodol ychwaith o rai canllawiau a chynghorion sy'n berthnasol yn y DU. Felly cyflwynodd AGIC lythyr gweithredu ar unwaith ac, ers hynny, derbyniodd ddigon o sicrwydd bod y materion hyn wedi cael eu hymdrin yn foddhaol.

Ar y cyfan, gwelsom fod rheolwr y practis yn effeithiol ac yn drefnus wrth ei gwaith. Roedd y staff clinigol i gyd newydd gofrestru neu'n dal i dderbyn hyfforddiant, ac felly'n gymharol ddibrofiad yn eu gyrfa deintyddol. Gwnaethom felly gynghori IDH i sicrhau bod aelodau staff yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan y sefydliad.

Cyn i ddeintyddion arfer eu gwaith, rhaid iddynt gael eu cynnwys ar restr perfformwyr. Roedd y bwrdd iechyd wedi gosod amodau ar un o'r deintyddion, a gymhwysodd y tu allan i'r DU, i hyrwyddo cyfleoedd dysgu ychwanegol yn unol â rheoliadau'r DU. Nid oedd yn eglur p'un a oedd y deintydd yn bodloni'r

amodau hyn, ac felly cyfeirion ni'r mater at y bwrdd iechyd i ddilyn trywydd y mater hwn yn uniongyrchol gyda'r deintydd. Ers hynny, mae AGIC wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan IDH a'r bwrdd iechyd lleol o'r camau ychwanegol a wnaed i ymdrin â'r mater hwn.

Gwelsom dystiolaeth ddogfennol fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn rhai meysydd dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd yna system ar gyfer monitro cynnydd y staff, a gwnaethom gynghori bod rhaglen o arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal, lle y gellid monitro cynnydd y staff a chytuno ar gynllun datblygu personol.

Ar y cyfan, gwelsom fod yr amgylchedd yn hygyrch a bod yr ardaloedd yr oedd y cleifion yn mynd iddynt yn addas i'r diben ac yn cael eu cynnal yn dda. Roedd ffenestri bychain ar ddau o ddrysau'r ystafelloedd triniaeth, a gwnaethom argymhell y practis i roi gorchudd drostynt er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas cleifion. Dylid cynnal sgysiau ynglŷn â gwybodaeth gyfrinachol y cleifion y tu hwnt i'r dderbynfa a'r ystafell aros, neu pan na fo cleifion yn bresennol yn y manau hyn.



## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y claf*

**Roedd pob un o'r saith claf a gwblhaodd holiadur AGIC yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, a bod tîm y practis yn groesawgar tuag atynt fel arfer.**

**Daeth practis Mervinian House i feddiant IDH ym mis Gorffennaf 2014, a gwnaethom argymhell bod taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion cyn gynted â phosibl, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion. Roedd IDH yn hyrwyddo gwasanaethau deintyddol preifat, felly dylid sicrhau bod rhestr o'r prisiau preifat ar gael hefyd.**

**Roedd rhai o'r cleifion wedi gorfod oedi cyn cael eu gweld o achos bod un o'r ddau ddeintydd wedi gadael yn ddiweddar, gan adael swydd wag. Roedd y practis yn rhagweld y bydd y broblem hon wedi'i datrys cyn gynted ag y bydd y swydd wedi'i llenwi.**

**Nid oedd system ffurfiol ar gyfer derbyn adborth gan gleifion am y gwasanaeth. Gwnaethom gynghori bod system yn cael ei datblygu a, lle bo'n bosibl, y gweithredir yn sgil adborth cleifion.**

Wythnos cyn yr arolygiad, darparodd AGIC holiaduron cleifion i'r practis, i'w dosbarthu wrth i'r cleifion ddod i mewn ar gyfer eu hapwyntiad ac i'w casglu gan AGIC ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r holiaduron wedi cael eu cwblhau, a dywedodd staff y dderbynfa wrthym fod hyn am fod y cleifion wedi gwrthod eu llenwi. Fodd bynnag, ar y diwrnod, cytuno'n barod i lenwi'r holiadur a wnaeth saith o'r cleifion a welsom.

Dywedodd pob un o'r saith claf ei fod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd a bod tîm y practis yn groesawgar tuag atynt fel arfer. Dywedasant eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, a soniodd un o'r cleifion fod y staff yn eithriadol o barod eu cymwynas ac yn gwrtais.

Roedd pedwar o'r cleifion wedi profi oedi wrth gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd un o'r cleifion ei fod wedi derbyn galwad ffôn o flaen llaw i ddweud bod y deintydd yn sâl y diwrnod hwnnw. Ychwanegodd claf arall eu bod nhw'n dda yn gyffredinol, ond ei fod wedi profi oediadau o ryw hanner awr o bryd i'w gilydd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, clywsom dderbynnwyd yn dweud wrth glaf bod y deintydd ychydig dros amser; gwelsom y claf yn ddiweddarach ac roedd wedi bod yn aros am dros hanner awr ar ôl amser yr apwyntiad. Serch hynny, ni fynegodd unrhyw anfodlonrwydd â'r aros.

Wrth drafod â'r staff, cawsom fod y deintydd sy'n weddill yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw, am eu bod nhw'n brin o un deintydd a bod ganddynt restr hir o gleifion. Fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis bod y swydd wag wedi'i hysbysebu ac roeddent yn gobeithio llenwi hon cyn gynted â phosibl, ac yn rhagweld y bydd hyn yn ateb y problemau hyn.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan y practis daflenni gwybodaeth i gleifion. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod IDH yn ailfrandio ac yn dod yn 'My Dentist', ac nid oedd deunydd gohebu Practis Deintyddol Mervinian House wedi cael ei ddarparu hyd yma. Rhoddwyd copi inni o'r daflen flaenorol a ysgrifennwyd yn Saesneg a Chymraeg; cadarnhaodd rheolwr y practis wrthym fod cyfran go lew o'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai IDH sicrhau bod taflenni gwybodaeth cleifion ar gael cyn gynted ag y bo modd. Yn hyn o beth, dylid rhoi ystyriaeth i anghenion cyfathrebu ac iaith gyntaf y cleifion.***

***Dywedwyd wrthym fod 95% o'r cleifion yn derbyn gwasanaethau'r GIG, ond bod IDH hefyd yn hyrwyddo gwasanaethau deintyddol preifat. Gwelsom fod rhestr o brisiau'r GIG wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, nid oedd rhestr o'r prisiau preifat. Dywedodd rheolwr y practis ei bod eisoes wedi llunio rhestr o'r prisiau preifat, a bod angen creu fersiwn derfynol ohoni cyn ei harddangos.***

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod rhestr o ffioedd ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat ar gael cyn gynted â phosibl.***

Nid oedd pump o'r cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod arwydd IDH yn Gymraeg a Saesneg ar ochr y dderbynfa yn ymwneud â chanmoliaethau, awgrymiadau a chwynion. Cydnabuom yr arfer da o ddarparu'r wybodaeth hon yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, yng ngoleuni adborth y cleifion, gwnaethom awgrymu y dylai'r wybodaeth hon gael ei symud i le amlycach yn yr ystafell aros. Roedd y rhifau cyswllt y tu allan i oriau agor wedi'u harddangos yn amlwg wrth fynedfa'r adeilad.

Gwelsom sampl o adborth gan gleifion ynghylch practis Mervinian House, a gyflwynwyd yn electronig dros yr wythnosau diwethaf trwy wefan IDH. Roedd blwch yn yr ystafell aros lle gallai cleifion bostio arolygon. Ond dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd arolygon cleifion wedi cael eu cyflwyno ers peth amser. Ar hyn o bryd, felly, nid oedd system ffurfiol ar gyfer derbyn adborth gan gleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir y practis i ystyried ffyrdd eraill o gael adborth gan gleifion, er mwyn i staff gael dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim. Lle bo'n bosibl, dylid gweithredu ar yr adborth hwn a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau i ddarpariaeth y gwasanaeth.***

## ***Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal***

**Yn gyffredinol, gwelsom fod y cyfleusterau clinigol a'r cyfarpar yn dda. Roedd systemau effeithiol ar waith ar gyfer cynnal a chadw ac archwilio. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus nad oedd yr unig ddeintydd sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y practis, ac a gymhwysodd y tu allan i'r DU, yn meddu ar hyfforddiant diogelwch ymbelydredd a radiograffeg priodol, fel sy'n ofynnol dan reoliadau'r DU. Nid oedd y deintydd yn ymwybodol ychwaith o rai canllawiau a chynghorion sy'n berthnasol yn y DU. Felly cyflwynodd AGIC lythyr gweithredu ar unwaith ac, ers hynny, derbyniodd ddigon o sicrwydd bod y materion hyn wedi cael eu hymdrin yn foddhaol.**

Canfuom fod cyfleusterau ac offer radiograffig yn dda, ac roedd tystiolaeth bod archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd yn digwydd yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol. Ond roedd yr unig ddeintydd sy'n gweithio yn y practis wedi cymhwyso y tu allan i'r DU a hyd yn hyn heb gwblhau hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd a radiograffeg, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (RhYİ(DM)). Dywedwyd wrthym fod y deintydd wrthi'n ymrestru ar gwrs ar hyn o bryd ond nad oedd dyddiad wedi'i gadarnhau eto.

Yn ogystal, ar adeg yr arolygiad, nid oedd goruchwylydd diogelwch ymbelydredd addas gan y practis, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999. Gall y diffyg o ran hyfforddiant RhYİ(DM) a phennu goruchwylydd diogelwch ymbelydredd beri risg ar unwaith i ddiogelwch cleifion. Felly cyflwynodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella yn dilyn yr arolygiad. Ers hynny, rydym wedi derbyn tystiolaeth ddogfennol o'r hyfforddiant RhYİ(DM) a wnaed gan y deintydd, a rhoddodd hyn ddigon o sicrwydd inni fod y mater wedi cael ei ymdrin yn foddhaol.

Cafwyd peiriant pelydr-X newydd ar gyfer un o'r ystafelloedd triniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r dystysgrif ddiogelwch wedi cael ei hanfon gan IDH at y practis. Cytunodd rheolwr y practis i fynd ar ei drywydd ar unwaith ac i gadw copi o'r dystysgrif ar y safle.

Edrychom ar y cyfarpar dadebru brys a'r feddyginiaeth a gedwir yn y practis. Roedd y systemau monitro'n foddhaol a'r cyfarpar a'r feddyginiaeth i gyd o fewn eu dyddiadau dod i ben. Dangosodd tystysgrifau hyfforddiant fod y staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei waredu yn y bagiau a'r biniau priodol, fesul lliw.

Gwnaethom ystyried y broses dadheintio (glanhau a sterileiddio). Roedd cyfleusterau da ar waith at y diben hwn, gydag ystafell ddadheintio bwrpasol a oedd yn cynnwys y cyfleusterau a'r cyfarpar angenrheidiol i atal heintiau. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol a oedd yn dynodi bod archwiliadau rheoli heintiau'n digwydd yn rheolaidd; gwelsom fod yr archwiliad diweddaraf wedi'i gynnal yn ystod mis Medi 2014.

Roedd y tair ystafell driniaeth yn y practis yn lân ac â chyflenwad digonol o offer deintyddol a chyfarpar diogelu personol. Gwelsom fod eitemau megis blaenau chwistrellau a chyfarpar sugno yn rhai untro ac yn cael eu gwaredu ar ôl eu defnyddio, sy'n unol ag arferion a argymhellir.

Gwnaethom ystyried safon y drefn o gadw cofnodion, a samplwyd deg cofnod gennym i gyd, gan gynnwys pum cofnod a gwblhawyd gan y deintydd a oedd wedi gadael wythnos cyn ein harolygiad. Roedd ansawdd cofnodion y deintydd a oedd newydd adael yn foddhaol, ond roedd safon cofnodion y deintydd arall yn siomedig, yn enwedig mewn perthynas â radiograffau a thriniaethau ataliol ar gyfer plant. Wrth siarad â'r deintydd, daeth yn amlwg nad oedd yn gyfarwydd â rhai o gynghorion a chanllawiau cyfredol y DU, er enghraifft y meini prawf dethol ar gyfer radiograffau a chyflenwi iechyd y geg gwell.

Roedd tystiolaeth bod y bylchau yng ngwybodaeth y deintydd, fel y nodwyd uchod, yn cael eu hadlewyrchu yn ansawdd isel y drefn o gadw cofnodion yn y meysydd hynny. Felly roedd y llythyr sicrwydd ar unwaith a'r llythyr gwella, a gyflwynwyd gan AGIC yn dilyn yr arolygiad, yn gofyn am sicrwydd ynghylch sut y byddid yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Gwnaed camau pellach gan IDH ers hynny i sicrhau bod y deintydd yn derbyn goruchwyliaeth a chefnogaeth ychwanegol er mwyn iddo ddatblygu digon o allu yn y meysydd uchod.

### ***Gwelliannau sydd eu hangen***

***Ymdriniwyd â'r holl welliannau sy'n dod dan y thema hon yn syth ar ôl yr arolygiad, yn unol â llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella AGIC. Gwnaed camau gweithredu ychwanegol gan y deintydd ac IDH, gan roi digon o sicrwydd inni fod y materion hyn wedi cael eu hymdrin yn foddhaol, neu ar fin cael eu hymdrin.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

Ar y cyfan, gwelsom fod rheolwr y practis yn effeithiol ac yn drefnus wrth ei gwaith. Roedd y staff clinigol i gyd newydd gofrestru neu'n dal i dderbyn hyfforddiant, ac felly'n gymharol ddibrofiad yn eu gyrfa ddeintyddol. Gwnaethom felly gynghori IDH i sicrhau bod aelodau staff yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan y sefydliad.

Cyn i ddeintyddion arfer eu gwaith, rhaid iddynt gael eu cynnwys ar restr perfformwyr. Roedd y bwrdd iechyd wedi gosod amodau ar un o'r deintyddion, a gymhwysodd y tu allan i'r DU, i hyrwyddo cyfleoedd dysgu ychwanegol yn unol â rheoliadau'r DU. Nid oedd yn eglur p'un a oedd y deintydd yn bodloni'r amodau hyn, ac felly cyfeirion ni'r mater at y bwrdd iechyd i ddilyn trywydd y mater hwn yn uniongyrchol gyda'r deintydd. Ers hynny, mae AGIC wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan IDH a'r bwrdd iechyd lleol o'r camau ychwanegol a wnaed i ymdrin â'r mater hwn.

Gwelsom dystiolaeth ddogfennol fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn rhai meysydd dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd yna system ar gyfer monitro cynnydd y staff, a gwnaethom gynghori bod rhaglen o arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal, lle y gellid monitro cynnydd y staff a chytuno ar gynllun datblygu personol.

Daeth practis deintyddol Mervinian House i feddiant IDH ym mis Gorffennaf 2014. Fe'n hysbyswyd nad oedd yr arwyddion a'r ohebiaeth newydd wedi cael eu cyflenwi eto, ar gyfer ailfrandio IDH yn 'My Dentist'. Nid oedd cyswllt IDH â'r gwasanaeth yn gwbl amlwg i ni ar safle'r practis, ac wrth sgwrsio â rhai o'r staff, deallom nad oedd unrhyw un o IDH wedi ymweld â nhw ers i'r cwmni gymryd perchnogaeth rhyw ddeg mis ynghynt.

### *Yr hyn sydd angen ei wella*

***Dylai IDH gymryd camau brys i sicrhau bod cleifion yn gwybod pwy yw'r cwmni sy'n rhedeg y gwasanaeth pan fyddant yn ymweld â'r practis. Dylid cymryd camau hefyd i sicrhau bod aelodau staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan y sefydliad.***

Dechreuodd rheolwr y practis weithio yn Mervinian House pan agorodd yn 2008, yn gyntaf fel nyrs ddeintyddol cyn ymgymryd wedyn â swydd rheolwr y practis ychydig flynyddoedd yn ôl. Roedd rheolwr y practis yn trefnu cyfarfodydd misol, ond gwelsom fod bylchau o dro i dro pan ganslwyd cyfarfodydd. Gwelsom sampl o'r cofnodion, a oedd yn cynnwys digon o fanylion i ddynodi gwaith a datblygiad tîm effeithiol. Wrth drafod â rheolwr y practis,

gwelwyd bod rhai materion staffio wedi cael eu hymdrin yn unol â'r polisïau staffio perthnasol, gan gynnwys disgyblaeth staff.

Cawsom fod y tîm clinigol yn gymharol newydd, o ran eu cyfnod yn gweithio yn y practis ynghyd â'r ffaith bod rhai staff yn dal i gael eu hyfforddi ar y cyd â'u gwaith. Daeth y deintydd, a oedd newydd gymhwyso, i weithio yn y practis ym mis Mehefin 2014 o du allan i'r DU. Am nad oedd wedi ennill ei gymhwyster yn y DU, derbyniodd gytundeb rhestr perfformwyr y bwrdd iechyd i weithio dan amodau. Gyda chydysyniad y deintydd, cysylltom â'r bwrdd iechyd ynghylch yr amodau. Ers hynny, mae IDH wedi rhoi cadarnhad ysgrifenedig i AGIC o'r camau a wnaed i gynorthwyo'r deintydd i fodloni amodau'r bwrdd iechyd.

O'r tair nyrs ddeintyddol, roedd dwy wedi dechrau gweithio yno ym mis Mawrth 2014 ac wedi'u cymhwyso ers llai na blwyddyn ac â blwyddyn arall o hyfforddiant i'w chwblhau, ac enillodd nyrs ddeintyddol arall ei chymhwyster yn ystod haf 2014.

Roedd yr hylenydd deintyddol mewn addysg llawn amser ac yn ymweld i ddarparu gwasanaeth bob rhyw ychydig wythnosau/misoedd, ond ar adeg ein harolygiad, nid oedd ganddo batrwm gwaith rheolaidd yn y practis.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai IDH roi cadarnhad ysgrifenedig i AGIC o'r cymorth ychwanegol a ystyrir/darperir ar gyfer y tîm clinigol sydd newydd gymhwyso ac sy'n amhrofiadol, i sicrhau bod y staff yn parhau i ddatblygu cymwyseddau sy'n addas i'r gwaith a wneir ganddynt.***

Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o staff, ac yn achos y nyrsys deintyddol a'r deintydd fe'u gwnaed yn 2013 a 2014. Roedd y deintydd a'r nyrs hyfforddedig wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru, a thystysgrif AGIC y deintydd, wedi'u harddangos yn y practis.

Dywedodd un o'r nyrsys deintyddol wrthym ei bod hi wedi gwneud hyfforddiant ond nad oedd hi'n gallu cael mynediad i gyfleuster hyfforddiant IDH ar-lein. Gwelsom sampl o gofnodion hyfforddiant staff a gweld bod rhai o'r staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar, gan gynnwys ar amddiffyn plant ac oedolion. Dan gofrestrriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, mae staff yn gyfrifol am ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyfforddi gorfodol a'r argymhellion. Fe'n hysbyswyd nad oedd un system ffurfiol ar gyfer monitro'r cynnydd yn hyfforddiant aelodau staff.

Fe'n hysbyswyd hefyd nad oedd arfarniadau staff wedi cael eu cwblhau hyd yma o achos newidiadau i'r staff dros y misoedd diwethaf, ond y byddai rheolwr y practis yn eu cynnal yn fuan. Gan fod dau o'r staff wedi gweithio yn y practis ers dros flwyddyn, gwnaethom argymhell bod eu harfarniadau'n cael eu cynnal cyn gynted â phosibl.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Argymhellir y practis i roi arfarniad blynyddol i'r staff a llunio cynllun datblygu personol ar eu cyfer. Er cydnabod mai'r staff sy'n gyfrifol am fodloni eu hanghenion hyfforddiant, bydd y broses hon yn helpu o ran monitro'u datblygiad proffesiynol parhaus a'u hanghenion hyfforddiant.***

Gwelsom fod polisi cwynion cynhwysfawr gan IDH a bod yr amserlen wahanol rhwng Cymru a Lloegr wedi cael ei chyfleu. Serch hynny, roedd un adran yn cyfeirio at rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal, sef y rheoleiddiwr gofal iechyd yn Lloegr. Gan mai AGIC yw'r rheoleiddiwr yng Nghymru, gwnaethom gynghori bod yr adran hon yn cael ei diweddarau.

Gwelsom fod IDH wedi darparu polisiâu a gweithdrefnau i'r practis a oedd yn cynnwys dyddiadau'r fersiynau. Roedd llawer o'r rhain yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyfarwyddiadau clir i'r staff eu dilyn, a gwnaethom gydnabod hyn fel arfer nodedig.

O ystyried nifer yr argymhellion a champau gweithredu brys a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid ystyried rhoi trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis i fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.



## ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Ar y cyfan, gwelsom fod yr amgylchedd yn hygyrch a bod yr ardaloedd yr oedd y cleifion yn mynd iddynt yn addas i'r diben ac yn cael eu cynnal yn dda. Roedd ffenestri bychain ar ddau o ddrysau'r ystafelloedd triniaeth, a gwnaethom argymhell y practis i roi gorchudd drostynt er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas cleifion. Dylid cynnal sgysiau ynglŷn â gwybodaeth gyfrinachol y cleifion y tu hwnt i'r dderbynfa a'r ystafell aros, neu pan na fo cleifion yn bresennol yn y manau hyn.**

Adeilad rhestredig Gradd II yw cartref practis deintyddol Mervinian House. Mae'r adeilad yn ymestyn dros bedwar llawr, a dim ond y llawr daear a ddefnyddir gan y cleifion. Roedd angen dringo gris fechan wrth fyned i'r adeilad. Dywedodd un o'r nyrsys deintyddol wrthym eu bod nhw'n cynorthwyo cleifion sydd mewn cadeiriau olwyn i ddod i mewn i'r adeilad ac na fu unrhyw anhawster gyda hyn. Cawsom ein hysbysu gan reolwr y practis yn ddiweddarach bod ramp ar gael hefyd i hwyluso mynediad mewn cadair olwyn.

Roedd pob ystafell driniaeth ar y llawr daear ac yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Roedd tŷ bach y cleifion wedi cael ei addasu ac yn cynnwys sebon hylif, peiriant sychu dwylo a thywelion papur rhag i groes-heintio ddigwydd.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob man a ddefnyddir gan gleifion yn cael ei gynnal a'i gadw, ac yn lân a thaclus. Roedd llawr daear y practis yn gymharol olau ac iddo oleuadau da ac awyru effeithiol. Roedd yr ystafelloedd hyn yn gyfforddus o gynnes yn ystod yr arolygiad.

Sylwom fod ffenestr fach yn nrws dwy o'r ystafelloedd triniaeth a oedd yn galluogi pobl i weld y tu mewn pan oedd triniaeth yn digwydd. Ceid mynediad i un o'r ystafelloedd triniaeth yn syth o'r dderbynfa, ac felly gallai hyn danseilio preifatrwydd ac urddas y cleifion. Fe'n hysbyswyd gan reolwr y practis o ddiben y ffenestri, sef er mwyn i staff sy'n gweithredu'r peiriant pelydr-X allu bod y tu allan i'r ystafell a dal i gadw golwg ar y claf.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rydym wedi cynghori'r practis i roi gorchudd dros y ffenestri yn nrysau'r ystafelloedd triniaeth, er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion pan fyddant yn cael triniaeth ddeintyddol.***

Yn ystod yr arolygiad, clywyd y derbynnydd yn gadael negeseuon ffôn i gleifion a oedd wedi cofrestru â'r practis ond nad oedd wedi gwneud apwyntiad eto. Roedd neges y derbynnydd yn cynnwys enw'r cleifion. Gan fod y dderbynfa

mewn rhan o'r ystafell aros, gallai cleifion eraill glywed y galwadau hyn yn hawdd, ac felly roedd hyn yn tanseilio cyfrinachedd y cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynghorir staff y practis i warchod cyfrinachedd cleifion ar bob adeg bosibl. Yn hyn o beth, ni ddylid cynnal sgysiau neu adael negeseuon ffôn sy'n cynnwys gwybodaeth breifat neu sensitif o fewn clyw cleifion eraill.***

Wrth edrych trwy'r polisïau a'r gweithdrefnau, gwelsom fod rhaglen lanhau fanwl gan IDH a oedd yn cwmpasu pob ardal yn y practis. Gwnaeth rheolwr y practis ein hysbysu nad oedd yna lanhawr penodedig ac felly hi sy'n gwneud y dasg hon gan fwyaf. Roedd safon gyffredinol y glendid yn dda ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, gan fod rheolwr y practis yn gyfrifol hefyd am safle Machynlleth, cynghorwn IDH i fonitro'r arfer hwn i sicrhau bod safon y glendid yn cael ei chynnal yn ddigonol.

Roedd cyfleusterau'r staff ar y llawr cyntaf yn bennaf, ac yn cynnwys ystafell staff gyfun, swyddfa rheolwr y practis, a thoiledau staff. Gwelsom fod digon o le i storio pethau yn yr adeilad a bod rhai mannau yn yr adeilad nad oedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd practis deintyddol Mervinian House yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

**Atodiad A**

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Mervinian House, Dolgellau**

**Dyddiad yr arolygiad: 6 Mai 2015**

<b>Rhif y dudalen</b>	<b>Yr hyn sydd angen ei wella</b>	<b>Cam gweithredu'r practis</b>	<b>Swyddog cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
<b>Profiad y Claf</b>				
8	<b>Dylai IDH sicrhau bod taflenni gwybodaeth cleifion ar gael cyn gynted ag y bo modd. Yn hyn o beth, dylid rhoi ystyriaeth i anghenion cyfathrebu ac iaith gyntaf y cleifion.</b> [Safon Iechyd a Gofal 3.2 a 4.2]			
8	<b>Dylid sicrhau bod rhestr o ffioedd ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat ar gael cyn gynted â phosibl.</b> [Safon Iechyd a Gofal 3.2 a 4.2]			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
9	<p><b>Cynghorir y practis i ystyried ffyrdd eraill o gael adborth gan gleifion, er mwyn i staff gael dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim. Lle bo'n bosibl, dylid gweithredu ar yr adborth hwn a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau i ddarpariaeth y gwasanaeth.</b></p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 6.3]</p>			
<b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>				
11	<p><b><i>Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth:</i></b></p> <p><i>Ymdriniwyd â'r holl welliannau sy'n dod dan y thema hon yn syth ar ôl yr arolygiad, yn unol â llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella AGIC. Gwnaed camau gweithredu ychwanegol gan y deintydd ac IDH, gan roi digon o sicrwydd inni fod y materion hyn wedi cael eu hymdrin yn foddhaol, neu ar fin cael eu hymdrin.</i></p>	Ddim yn berthnasol		
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
12	<p><b>Dylai IDH gymryd camau brys i sicrhau bod cleifion yn gwybod pwy yw'r cwmni</b></p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>sy'n rhedeg y gwasanaeth pan fyddant yn ymweld â'r practis. Dylid cymryd camau hefyd i sicrhau bod aelodau staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan y sefydliad.</p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 3.4 a 7.1]</p>			
13	<p>Dylai IDH roi cadarnhad ysgrifenedig i AGIC o'r cymorth ychwanegol a ystyrir/darperir ar gyfer y tîm clinigol sydd newydd gymhwyso ac sy'n amhrofiadol, i sicrhau bod y staff yn parhau i ddatblygu cymwyseddau sy'n addas i'r gwaith a wneir ganddynt.</p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 7.1]</p>			
14	<p>Argymhellir y practis i roi arfarniad blynyddol i'r staff a llunio cynllun datblygu personol ar eu cyfer. Er cydnabod mai'r staff sy'n gyfrifol am fodloni eu hanghenion hyfforddiant, bydd y broses hon yn helpu o ran monitro'u datblygiad proffesiynol parhaus a'u hanghenion hyfforddiant.</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	[Safon Iechyd a Gofal 7.1]			
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
15	<p>Rydym wedi cynghori'r practis i roi gorchudd dros y ffenestri yn nrysau'r ystafelloedd triniaeth, er mwyn gwarchod preifatrwydd ac urddas y cleifion pan fyddant yn cael triniaeth ddeintyddol.</p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 2.1]</p>			
16	<p>Cynghorir staff y practis i warchod cyfrinachedd cleifion ar bob adeg bosibl. Yn hyn o beth, ni ddylid cynnal sgysiau neu adael negeseuon ffôn sy'n cynnwys gwybodaeth breifat neu sensitif o fewn clyw cleifion eraill.</p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 2.1]</p>			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):**.....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....